**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**Tachwedd 2012**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Gorchymyn drafft Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2012: Adroddiad at ddibenion adran 19 o *Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011***

*Cyflwyniad*

1. Ar 15 Tachwedd 2012, gosododd John Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, ddrafft o *Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2012*.

2. Bydd y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r pwerau a roddwyd gan adrannau 13, 14, 15 a 35 o *Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011* ("Deddf 2011")

3. Yn unol ag adran 19(5)(b) o Ddeddf 2011, gall un o bwyllgorau'r Cynulliad sy'n gyfrifol am adrodd ar y Gorchymyn drafft argymell, o fewn 30 diwrnod i osod y Gorchymyn drafft, fod cyfnod adrodd estynedig o 60 diwrnod yn gymwys, sydd i bob pwrpas yn ymestyn y cyfnod adrodd gan 20 diwrnod.

4. Dechreuwyd ar y gwaith o ystyried y Gorchymyn drafft mewn sesiwn breifat ar 19 Tachwedd 2012.

*Materion i'w hystyried*

5. O dan Reol Sefydlog 21, mae ein Pwyllgor yn amlwg yn bwyllgor sy'n gyfrifol am adrodd ar y Gorchymyn drafft.

6. Rydym yn nodi, yn unol ag adran 17 o Ddeddf 2011, fod angen caniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol cyn gallu gwneud y Gorchymyn. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol sy'n cydfynd â'r Gorchymyn drafft, nid oedd caniatâd o'r fath wedi cael ei roi pan y'i gosodwyd.[1] Hefyd, rydym yn nodi y disgwylir i'r Gorchymyn ddod i rym ar 1 Ebrill 2013.

7. Rydym yn ystyried y Gorchymyn i fod yn ddarn arwyddocaol o ddeddfwriaeth sy'n gymhleth ei natur.

8. O ganlyniad i hyn, **rydym yn argymell y dylai'r weithdrefn sy'n cael ei nodi yn isadrannau (6) i (9) o adran 19 o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011 fod yn gymwys i'r**

[1] Llywodraeth Cymru, *Memorandwm Esboniadol ar gyfer Gorchymyn Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2012*, 14 Tachwedd 2012, tudalen 3 (Saesneg yn unig).

**Gorchymyn drafft.** Bydd hyn yn caniatáu i'n Pwyllgor adrodd ar y Gorchymyn drafft o fewn 60 diwrnod i'r dyddiad y'i gosodwyd (at ddibenion Deddf 2011).